



21 Tachwedd 2024

Annwyl Aelodau'r Senedd,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 6 Tachwedd 2024, addewais ysgrifennu atoch yn amlinellu'r ffrydiau cyllido sydd ar gael i helpu i leihau nifer yr eiddo gwag a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol drwy'r [rhaglen Trawsnewid Trefi](#) i ailddatblygu eiddo gwag gan gynnwys eiddo masnachol gwag mewn trefi ledled Cymru, a all gynnwys darparu cartrefi. Rydym wedi buddsoddi £125 miliwn rhwng 2022 a 2025 i gefnogi canol ein trefi a'n dinasoedd.

Mae'r [Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau](#) hefyd ar gael i Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol i ailddatblygu adeiladau anodd lle mae costau anarferol o uchel yn arafu cynnydd.

Lansiwyd [Cynllun Lesio Cymru](#) ym mis Ionawr 2022. Mae'r cynllun yn golygu y gall awdurdodau lleol lesio a chymryd cyfrifoldeb dros reoli eiddo preifat dros gyfnod o rhwng pump ac 20 mlynedd. Rydym wedi ymrwymo £30 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf i gefnogi gwelliannau i lety er mwyn eu cynnwys yn y cynllun.

Drwy'r [Grant Cartrefi Gwag](#), mae grantiau o hyd at £25,000 ar gael i adnewyddu eiddo gwag i'w gwneud yn ddiogel i fyw ynddynt. Bydd y cyllid hwn yn cyflymu ein gwaith i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel cartrefi. Mae'r [rhaglen Grant Tai Cymdeithasol](#) yn rhaglen grant dreigl sydd wedi'i chynllunio dros 3 i 5 mlynedd. Mae'n darparu cyllid grant ar gyfer tai fforddiadwy naill ai i adeiladu eiddo newydd, adnewyddu eiddo presennol, neu drosi adeiladau annomestig.

Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddelio â'u heiddo gwag hirdymor, mwy cymhleth, rydym wedi datblygu Cronfa Gorfodi Eiddo Gwag Trawsnewid Trefi. Mae'r gronfa ar gael i Awdurdodau Lleol sy'n dymuno cymryd camau gorfodi ar eiddo amlwg yng nghanol trefi, neu eiddo preswyl mewn unrhyw leoliad. Rhaglen fenthyciadau 15 mlynedd yw'r gronfa sy'n ad-daladwy yn llawn ar ddiwedd y tymor ac sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar ran Llywodraeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jayne Bryant". The signature is written in a cursive, flowing style.

Jayne Bryant AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government